**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: JJ/02000/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

20 Medi 2022

Annwyl Jack Sargeant AS,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 6 Medi 2022, ynglŷn â deiseb Lorna Brazell i ddynodi Mynyddoedd Cambria yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE).

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gyfrifol am ymgymryd â'r broses o ddynodi AHNEau a Pharciau Cenedlaethol yng Nghymru, ac ar hyn o bryd mae'n archwilio'r achos ar gyfer dynodi Parc Cenedlaethol newydd yn y gogledd-ddwyrain. Mae hon yn broses helaeth a chynhwysfawr a dyma fydd y flaenoriaeth i CNC dros y blynyddoedd i ddod o ran dynodiadau newydd. Mae gennym lawer i'w wneud hefyd o ran gwella a grymuso dynodiadau cyfredol fel eu bod yn gwneud cyfraniad mwy sylweddol tuag at frwydro yn erbyn yr argyfyngau natur a hinsawdd.

Wrth edrych ymhellach ymlaen, fodd bynnag, fel rhan o'u rhaglen ddynodi yn ystod y 2–3 blynedd nesaf, mae CNC hefyd wedi ymrwymo i gynnal asesiad technegol o harddwch naturiol ar gyfer Cymru gyfan. Y bwriad yw y bydd hyn yn asesu ardaloedd yn erbyn y meini prawf harddwch naturiol a fydd yn helpu i asesu'r angen posibl i'w diogelu yn y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn amlwg o ddiddordeb i'r rheini sy'n ymgyrchu dros statws AHNE.

Er mwyn i ddynodiadau gael eu symud ymlaen mae'n bwysig dangos lefel o gefnogaeth leol i'r dynodiad, gan gynnwys cefnogaeth wleidyddol leol. Tan yn ddiweddar, roedd Cymdeithas Mynyddoedd Cambria yn ymgyrchu dros gael Parc Cenedlaethol, yn hytrach na statws AHNE. Rwy'n ymwybodol hefyd fod cynnig wedi'i wneud gan Fenter Mynyddoedd Cambria, sef corff ar wahân, nad yw'n chwilio am ddynodiad statudol o'r brig i lawr, ond yn hytrach yn amlinellu dull amgen ar lawr gwlad. Erys cwestiwn ynglŷn â'r graddau mae ymgyrchwyr wedi sicrhau cefnogaeth leol a chytgord rhwng dulliau gwahanol o amddiffyn tirweddau, sydd weithiau'n gwrthdaro.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff CF99 1SN
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales
Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n hapus i swyddogion, ynghyd â swyddogion CNC, gwrdd â Lorna i drafod manylion nifer o agweddau ar y cynnig i ddynodi. Byddaf yn dilyn y trafodaethau hyn yn agos.

Yn gywir,

**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd